



## Adnodd 6: Ceiswyr lloches yn Ewrop yn 2015

Cymharwch y wybodaeth a ddarperir yn y ddau graff hyn ar geisiadau lloches yn Ewrop.

**Mae Ffigur un yn dangos cyfanswm y ceisiadau ac mae ffigur dau yn dangos y cyfanswm fesul 1000 o boblogaeth bob gwlad.**

Hawlio lloches yn Ewrop 2015




Ffynhonnell: Ewrostat

### 1. O ffigur un

- Pa dair gwlad sydd â'r rhan fwyaf o geisiadau lloches?
  - Enwch dair gwlad oedd â 1000 o geisiadau lloches ar gyfartaledd
  - Allwch chi roi amcangyfrif bras o'r nifer ar gyfer y DU. Pa wledydd eraill sydd â niferoedd tebyg?
  - Allwch chi roi amcangyfrif bras o'r nifer ar gyfer Iwerddon. Sut mae'n cymharu â ffigur y DU?
- Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu o ffigur un, ysgrifennwch 3-5 datganiad yn disgrifio'r hyn rydych wedi'i ddysgu o'r graff am geisiadau lloches yng ngwledydd Ewrop yn 2015.
  - Beth yw cyfyngiadau'r graff hwn os bydech am gael mwy o wybodaeth am geiswyr lloches yn Ewrop ac yn y DU yn benodol?

**Ffigur Dau: Mae Ffigur Dau yn dangos nifer y ceisiadau fesul 1000 o boblogaeth pob gwlad.**



Ffynhonnell: Ewrostat

**1. Nawr edrychwch ar ffigur dau.**

- a) Eglurwch pam fod yr Almaen yn y chweched safle yn y siart hwn er bod ganddi'r nifer uchaf o geisiadau am loches, fel y nodir yn ffigur un?
  - b) Edrychwch ar y gwledydd yn eich ateb i C1c uchod, sydd â niferoedd tebyg o geisiadau am loches i'r DU, disgrifiwch ble y maent yn y graff hwn mewn perthynas â'r DU. Beth ydych chi'n sylwi arno?
  - c) Disgrifiwch safle Iwerddon a'r DU yn ffigur dau. Sut mae hyn yn cymharu â ffigur un?
  - d) Pam mae'n ddefnyddiol cael y ffigur cyfartalog yn y siart?
2. Pa mor gywir oedd y datganiadau a nodwyd gennych yn C2 uchod? Beth mae hynny'n ei ddysgu i ni am ddefnyddio graffiau ac ystadegau?
  3. Defnyddiodd y BBC y graffiau hyn mewn erthygl fer gan ychwanegu'r testun a nodir isod. Ystyriwch – a yw'n cofnodi ffaith neu farn?

## Pa wledydd yn Ewrop yr effeithir arnynt fwyaf?

Er bod gan yr Almaen y nifer uchaf o geisiadau am loches yn 2015, Hwngari oedd â'r mwyaf yn unol â'i phoblogaeth, er ei bod wedi cau ei ffin â Croatia mewn ymgais i atal y llif ym mis Hydref. Gwnaeth bron i **1,800** o ffoaduriaid fesul 100,000 o boblogaeth leol Hwngari wneud cais am loches yn 2015.

Roedd Sweden yn dilyn yn agos gyda **1,667** fesul 100,000.

**587** oedd y ffigur ar gyfer yr Almaen, a chafwyd **60** o geisiadau fesul 100,000 o breswylwyr yn y DU. **260** oedd cyfartaledd yr UE

4. a) Pe baech yn ysgrifennu erthygl bapur newydd a'ch bod am argyhoeddi pobl y dylai Prydain dderbyn mwy o geiswyr lloches, pa graff fyddech chi'n ei ddefnyddio a pham?  
b) Pe baech yn ysgrifennu erthygl bapur newydd i argyhoeddi pobl bod y DU yn derbyn cymaint o geiswyr lloches â chenhedloedd eraill Ewrop, pa graff fyddech chi'n ei ddefnyddio a pham?
  
5. Nid yw ffigur un na dau yn darparu'r nifer wirioneddol o geiswyr, fodd bynnag pe baech yn gwybod poblogaeth pob gwlad fe allech ei gyfrifo. a) Pa broses fathemategol y byddech chi'n ei defnyddio?  
b) 65 miliwn oedd poblogaeth y DU ar gyfartaledd yn 2015. Beth oedd nifer y ceiswyr lloches yn y DU yn 2015?


## Ffigur Tri: Ceisiadau am loches a gymeradwywyd yn 2015

Roedd y ddau graff cyntaf yn darparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau; mae ffigur tri isod yn dangos faint o'r ceisiadau hyn sy'n cael eu cymeradwyo, h.y. bod yr ymfudwr yn cael yr hawl i fyw a gweithio yn y wlad y'i cyrhaeddodd.

### Ceisiadau lloches a gymeradwywyd 2015



### Cyfanswm yr hawliadau a roddwyd yn ôl gwlad



Ffynhonnell: Ewrostat

- Edrychwch ar y ffigur ar gyfer ceisiadau lloches a gymeradwywyd yn yr UE yn 2015. Heb ddefnyddio cyfrifiannell
  - rhowch amcangyfrif bras o nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer pob un o'r gwledydd hyn fel canran o nifer gyflawn yr UE?  
Yr Almaen,  
Yr Eidal,  
Y DU
- Sawl cais am loches a ganiatawyd gan wledydd eraill yr UE? (*Clw: Adiwch gyfanswm y ceisiadau a ganiatawyd gan y chwe gwlad a restrwyd a'i dynnu o nifer gyflawn yr UE.*)
  - Pa ganran yw hon o gyfanswm y ceisiadau a gymeradwywyd?
- Caniataodd Sweden ddwywaith gymaint o geisiadau â Ffrainc ar gyfartaledd. Gan ddefnyddio mesuriadau, disgrifiwch sut mae'r cylchoedd yn dangos y ffaith hon.
- Beth yw defnyddiau a chyfyngiadau'r graff hwn? Meddyliwch am y wybodaeth mae'n ei rhoi i chi a pha wybodaeth sydd ar goll a fyddai'n eich helpu i ddeall mwy am geisiadau lloches.


## Estynedig

Mae'r graff hwn yn dangos yr un wybodaeth â ffigur un. Pa graff oedd yn fwyaf defnyddiol yn eich barn chi a pham?

### Ble mae ffoaduriaid yn ceisio lloches yn Ewrop?

Nifer y ceisiadau am loches a dderbyniwyd yn 2015 (lonawr tan Awst oni nodir yn wahanol)

0-999 1,000-9,999 10,000-24,999 25,000-49,999 50,000-99,999 100,000+



Ffynhonnell: Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid